**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Adroddiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Is-ddeddfwriaeth : 17 Mawrth 2004**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried dwy eitem o is-ddeddfwriaeth mewn cyfarfod ddydd Mercher 17 Mawrth 2004:

- Rheoliadau Trwyddedu Gweithgareddau Antur 2004; a
- Rheoliadau Cynigion Trefniadaeth Ysgolion gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant 2004.

**Rheoliadau Trwyddedu Gweithgareddau Antur 2004**

Bydd y Pwyllgor Busnes yn ystyried y rheoliadau hyn ar 27 Ebrill, ac yna bydd y cyfarfod llawn yn eu hystyried ar 4 Mai a'r Senedd yn eu hystyried ar 5 Mai. Daw'r rheoliadau arfaethedig yn sgil ail adolygiad tair blynedd y drefn drwyddedu a gynhaliwyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES) ar ran Lloegr, yr Alban a Chymru yn 2003.

Y bwriad yw dirymu'r rheoliadau presennol a gwneud rheoliadau newydd a fydd yn gymwys i Loegr, yr Alban a Chymru. Byddai'r rheoliadau arfaethedig yn newid amseriad arolygiadau drwy wahanu arolygu oddi wrth adnewyddu trwyddedau. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur felly'n gallu arolygu cyfleusterau darparwr unrhyw bryd yn ystod y 12 mis cyn i'r drwydded ddod i ben. Byddai'r rheoliadau arfaethedig hefyd yn codi lefel y ffioedd yn unol â chwyddiant.

Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r cyfle i drafod y rheoliadau arfaethedig. Cymeradwyodd yr Aelodau'r angen i'r rheoliadau fod yn gymwys ledled Lloegr, yr Alban a Chymru a chroesawyd y syniad o wahanu amseriad arolygiadau ac adnewyddu trwyddedau. Ni chynigiodd y Pwyllgor welliannau.

**Rheoliadau Cynigion Trefniadaeth Ysgolion gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant 2004**

Dewisodd y Pwyllgor y rheoliadau hyn i graffu'n fanwl arnynt yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr 2004. Wrth gyflwyno'r rheoliadau, cododd y Gweinidog y materion a ganlyn:

- Byddai'r pwerau a fyddai ar gael i ELWa'n ategu pwerau'r awdurdodau addysg lleol;
- Nid oedd yn fwriad symud darpariaeth chweched dosbarth oddi wrth yr ysgolion;
- Diben y pwerau i gynnig ad-drefnu ysgolion oedd gwella darpariaeth i ddysgwyr;

- Roedd paragraffau 22-23 y canllawiau drafft yn nodi na allai ELWa wneud cynigion er mwyn arbed costau'n unig; a
- Y Gweinidog fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol ar yr holl gynigion.

Yn sgil cyngor cyfreithiol y cynghorydd cyfreithiol Peter Jones, ystyriodd y Pwyllgor y gwelliannau arfaethedig a ganlyn i'r rheoliadau:

**Gwelliant 0** (yn enw Janet Ryder)

(tudalennau 8 a 12) Rhan 2 a Rhan 3
Ar ddechrau Rhan 2 a Rhan 3 rhoi… *"No proposal should be put forward or implemented without the agreement of the relevant local education authority."*

Wedi trafod y gwelliant, fe'i cynigiwyd yn ffurfiol gan Janet Ryder a chynhaliwyd pleidlais:

O blaid: David Davies, William Graham, Janet Ryder ac Owen John Thomas

Yn erbyn: Leighton Andrews, Peter Black, Jeff Cuthbert, Jane Davidson, Irene James a Denise Idris Jones

Gwrthodwyd y gwelliant o bedair pleidlais i chwech.

**Gwelliant 1** (yn enw Janet Ryder)

(tudalen 6) Rhan 1 Rhagarweiniol
1.-(1) Dileu popeth ar ôl *"....force"* a rhoi yn ei le *"two years after the implementation of ELWA's new planning and funding system."*

Wedi trafod y gwelliant, fe'i cynigiwyd yn ffurfiol gan Janet Ryder a chynhaliwyd pleidlais:

O blaid: Peter Black, David Davies, William Graham, Janet Ryder ac Owen John Thomas

Yn erbyn: Leighton Andrews, Jeff Cuthbert, Jane Davidson, Irene James a Denise Idris Jones

Roedd pump o blaid a phump yn erbyn. Yn unol â chanllawiau'r Llywydd, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw i drechu'r gwelliant.

**Gwelliant 2** (yn enw Janet Ryder)

(tudalen 8) Rhan 2
**Ymgynghori**
4. Rhwng *"...must consult"* a *"such persons....."* rhoi:

"(a) *the governing body of any school or educational institution affected;*
*(b) the parents of the school or educational institution concerned and of any other school or educational institution in the area which may be affected;*
*(c) the local education authority;*
*(d) the professional bodies concerned;*
*(e) the headteachers of all schools or educational institutions affected;*
*(f) the relevant CCET;*
*(g) the relevant Youth Partnership and Forums;*
*(h) the Diocesan Board of Education (or other body responsible for education) for any diocese of the Church in Wales and the Bishop of any Roman Catholic Church diocese any part of which is comprised in the area of the local education authority who maintain the school or (in the case of proposals to establish a new 16 to 19 institution) whom it is proposed should maintain the proposed school;"*

Wedi trafod y gwelliant, fe'i cynigiwyd yn ffurfiol gan Janet Ryder a chynhaliwyd pleidlais:

O blaid: Peter Black, David Davies, William Graham, Janet Ryder ac Owen John Thomas

Yn erbyn: Leighton Andrews, Jeff Cuthbert, Jane Davidson, Irene James a Denise Idris Jones

Roedd pump o blaid a phump yn erbyn. Yn unol â chanllawiau'r Llywydd, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw i drechu'r gwelliant.

**Gwelliant 3** (yn enw Janet Ryder)

(tudalen 9) **Cyhoeddi cynigion**
(4) (b) Dileu popeth mewn cromfachau ar ôl *"...the proposals"*

Wedi trafod y gwelliant, fe'i cynigiwyd yn ffurfiol gan Janet Ryder a chynhaliwyd pleidlais:

O blaid: Peter Black, David Davies, William Graham, Janet Ryder ac Owen John Thomas

Yn erbyn: Leighton Andrews, Jeff Cuthbert, Jane Davidson, Irene James a Denise Idris Jones

Roedd pump o blaid a phump yn erbyn. Yn unol â chanllawiau'r Llywydd, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw i drechu'r gwelliant.

**Gwelliant 4** (yn enw Janet Ryder)

(tudalen 10) **Cyhoeddi cynigion**
(4) Rhoi pwynt (f) newydd fel a ganlyn ac ailrifo'n unol â hynny:

*"(f) The parents of all pupils registered at the school. Where the proposals are to establish a new 16 – 19 institution the parents of all registered pupils within that catchment area."*

Wedi trafod y gwelliant, fe'i cynigiwyd yn ffurfiol gan Janet Ryder a chynhaliwyd pleidlais:

O blaid: Peter Black, David Davies, William Graham, Janet Ryder ac Owen John Thomas

Yn erbyn: Leighton Andrews, Jeff Cuthbert, Jane Davidson, Irene James a Denise Idris Jones

Roedd pump o blaid a phump yn erbyn. Yn unol â chanllawiau'r Llywydd, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw i drechu'r gwelliant.

**Gwelliant 5** (yn enw Janet Ryder)

(tudalen 10) **Gwrthwynebu cynigion**

**6**. Dileu *".....two months*" a rhoi yn ei le " *...three months*"

Wedi trafod y gwelliant, fe'i cynigiwyd yn ffurfiol gan Janet Ryder a chynhaliwyd pleidlais:

O blaid: Peter Black, David Davies, William Graham, Janet Ryder ac Owen John Thomas

Yn erbyn: Leighton Andrews, Jeff Cuthbert, Jane Davidson, Irene James a Denise Idris Jones

Roedd pump o blaid a phump yn erbyn. Yn unol â chanllawiau'r Llywydd, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw i drechu'r gwelliant.

**Gwelliant 6** (yn enw Janet Ryder)

(tudalen 10) **Gwrthwynebu cynigion**

**6**. Ychwanegu brawddeg newydd ar ddiwedd pwynt 6. – *" The three month period should exclude any periods when the school or educational institution is in recess."*

Wedi trafod y gwelliant, fe'i cynigiwyd yn ffurfiol gan Janet Ryder a chynhaliwyd pleidlais:

O blaid: Peter Black, David Davies, William Graham, Janet Ryder ac Owen John Thomas

Yn erbyn: Leighton Andrews, Jeff Cuthbert, Jane Davidson, Irene James a Denise Idris Jones

Roedd pump o blaid a phump yn erbyn. Yn unol â chanllawiau'r Llywydd, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw i drechu'r gwelliant.

**Gwelliant 7** (yn enw Janet Ryder)

(tudalen 11) **Penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol**

**9.** (d) Dileu popeth mewn cromfachau ar ôl *"...the school."*

Wedi trafod y gwelliant, fe'i cynigiwyd yn ffurfiol gan Janet Ryder a chynhaliwyd pleidlais:

O blaid: Peter Black, David Davies, William Graham, Janet Ryder ac Owen John Thomas

Yn erbyn: Leighton Andrews, Jeff Cuthbert, Jane Davidson, Irene James a Denise Idris Jones

Roedd pump o blaid a phump yn erbyn. Yn unol â chanllawiau'r Llywydd, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw i drechu'r gwelliant.

**Gwelliant 8** (yn enw Janet Ryder)

(tudalen 12) **Penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol**

**9.** (3) Rhoi'r geiriau "*and the local education authority*" ar ôl *"....if the Council"*

Wedi trafod y gwelliant, fe'i cynigiwyd yn ffurfiol gan Janet Ryder a chynhaliwyd pleidlais:

O blaid: Peter Black, David Davies, William Graham, Janet Ryder ac Owen John Thomas

Yn erbyn: Leighton Andrews, Jeff Cuthbert, Jane Davidson, Irene James a Denise Idris Jones

Roedd pump o blaid a phump yn erbyn. Yn unol â chanllawiau'r Llywydd, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw i drechu'r gwelliant.

**Gwelliant 9** (yn enw Janet Ryder)

(tudalen 14) **Gwrthwynebu cynigion**

**15.** (2) Dileu *"...one month*" a rhoi yn ei le "*two months*"

Wedi trafod y gwelliant, fe'i cynigiwyd yn ffurfiol gan Janet Ryder a chynhaliwyd pleidlais:

O blaid: Pob Aelod

Yn erbyn: Neb

Cymeradwywyd y gwelliant yn unfrydol.

**Gwelliant 10** (yn enw Janet Ryder)

(tudalen 14) **Gwrthwynebu cynigion**

**15.** (2) Ychwanegu brawddeg newydd ar ddiwedd y cymal fel a ganlyn: *" The two month period should exclude any periods when the school or educational institution is in recess."*

Wedi trafod y gwelliant, fe'i cynigiwyd yn ffurfiol gan Janet Ryder a chynhaliwyd pleidlais:

O blaid: Peter Black, David Davies, William Graham, Janet Ryder ac Owen John Thomas

Yn erbyn: Leighton Andrews, Jeff Cuthbert, Jane Davidson, Irene James a Denise Idris Jones

Roedd pump o blaid a phump yn erbyn. Yn unol â chanllawiau'r Llywydd, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw i drechu'r gwelliant.

**Gwelliant 11** (yn enw Janet Ryder)

(tudalen 17) ATODLEN 1 Rheoliad 5

Rhoi'r pwyntiau newydd a ganlyn ar ôl pwynt 2 ac ailrifo'n unol â hynny:

*"3. The evidence upon which the objectives and proposals are based.*

4. *An analysis of the effect and impact of the proposals on all existing schools and educational institutions in the catchment area."*

Wedi trafod y gwelliant, fe'i cynigiwyd yn ffurfiol gan Janet Ryder a chynhaliwyd pleidlais:

O blaid: Peter Black, David Davies, William Graham, Janet Ryder ac Owen John Thomas

Yn erbyn: Leighton Andrews, Jeff Cuthbert, Jane Davidson, Irene James a Denise Idris Jones

Roedd pump o blaid a phump yn erbyn. Yn unol â chanllawiau'r Llywydd, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw i drechu'r gwelliant.

**Gwelliant 12** (yn enw Janet Ryder)

(tudalen 17) ATODLEN 1 Rheoliad 5

Rhoi pwynt newydd ar ôl pwynt 6 ac ailrifo'n unol â hynny:

*"7. An analysis of the impact of the proposals on the year 7 to year 11 classes in the school or educational institution."*

Wedi trafod y gwelliant, fe'i cynigiwyd yn ffurfiol gan Janet Ryder a chynhaliwyd pleidlais:

O blaid: Pob Aelod

Yn erbyn: Neb

Cymeradwywyd y gwelliant yn unfrydol.

**Gwelliant 13** (yn enw Janet Ryder)

(tudalen 18) ATODLEN 2 Rheoliad 11

Rhoi'r pwyntiau newydd a ganlyn ar ôl pwynt 2 ac ailrifo'n unol â hynny:

*"3. The evidence upon which the objectives and proposals are based.*
*4. An analysis of the effect and impact of the proposals on all existing schools and educational institutions in the catchment area."*

Wedi trafod y gwelliant, fe'i cynigiwyd yn ffurfiol gan Janet Ryder a chynhaliwyd pleidlais:

O blaid:  Peter Black, David Davies, William Graham, Janet Ryder ac Owen John Thomas

Yn erbyn: Leighton Andrews, Jeff Cuthbert, Jane Davidson, Irene James a Denise Idris Jones

Roedd pump o blaid a phump yn erbyn. Yn unol â chanllawiau'r Llywydd, defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw i drechu'r gwelliant.

**Gwelliant 14** (yn enw Janet Ryder)

(tudalen 19)  ATODLEN 2  Rheoliad 11

Rhoi pwynt newydd ar ôl pwynt 6 ac ailrifo'n unol â hynny:

*"7.  An analysis of the impact of the proposals on the year 7 to year 11 classes in the school or educational institution."*

Wedi trafod y gwelliant, fe'i cynigiwyd yn ffurfiol gan Janet Ryder a chynhaliwyd pleidlais:

O blaid: Pob Aelod

Yn erbyn: Neb

Cymeradwywyd y gwelliant yn unfrydol.

**Gwelliant 15** (yn enw Janet Ryder)

ATODLEN 3  Rheoliadau 7 a 13

Rhoi cymal newydd yn Rhannau 2, 3, 4 a 5:

*"Details of provision to ensure development of Welsh medium education and training."*

Wedi trafod y gwelliant, fe'i cynigiwyd yn ffurfiol gan Janet Ryder a chynhaliwyd pleidlais:

O blaid: Pob Aelod

Yn erbyn: Neb

Cymeradwywyd y gwelliant yn unfrydol.

Dywedodd y Gweinidog y byddai ei swyddogion yn astudio’r gwelliannau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor ac yn ailddrafftio’r rheoliadau a/neu’r canllawiau cysylltiedig lle bo hynny’n briodol.